**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**1af Chwefror 2010**

**Y Diweddaraf am y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) ar Systemau Chwistrellu Dŵr yn y Cartref**

**Adroddiad gan Colin Hanks, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwynir yr adroddiad hwn i roi gwybod i'r Aelodau am hynt y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar Systemau Chwistrellu Dŵr yn y Cartref.

## Cefndir

2 Rhoddodd Ann Jones AC (Dyffryn Clwyd) dystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ar Dachwedd 10fed 2009 ynglŷn â'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol (LCO) ar Ddiogelwch Tân yn y Cartref. Mae Ann Jones yn bwrw'r Cymhwysedd Deddfwriaethol yn ei flaen er mwyn cael newid yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob tŷ newydd fod â system chwistrellu.

## Gwybodaeth

3 Yng Nghymru, darn o ddeddfwriaeth gyfansoddiadol yw'r Gorchymyn LCO, ar ffurf Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Mae'n trosglwyddo awdurdod deddfwriaethol o Senedd y Deyrnas Unedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rhaid i'r Gorchymyn gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, dau Dŷ'r Senedd, ac yna EM y Frenhines yn ei Chyngor. Mae pob Gorchymyn yn ychwanegu 'Mater' i un o'r 'Meysydd' a nodir yn Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Dyma restr o'r meysydd y gall y Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ynddynt. Yr un

ffordd arall i ddiwygio Atodlen 5 yw trwy gynnwys darpariaethau ym Mesurau Seneddol y Deyrnas Unedig (y cyfeirir atynt fel 'Pwerau Fframwaith' gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac fel 'Pwerau Deddfu' gan y Cynulliad Cenedlaethol).

4 Yna, bydd pob mater yn rhoi caniatâd i Lywodraeth y Cynulliad dderbyn deddfwriaeth o'r enw Mesur y Cynulliad, sy'n gweithredu yng Nghymru yn union fel y mae Deddf Seneddol yn gweithredu trwy'r Deyrnas Unedig (h.y. gellir ei gorfodi gan y Llysoedd). Mae Mesur y Cynulliad yn caniatáu i ddarpariaethau gael eu gwneud mewn maes penodol e.e. Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, Addysg, i'r Cynulliad eu derbyn. Mae'r testun a ddaw gyda'r Gorchymyn yn cynnwys union deitl y ddeddfwriaeth (Mesur) a fyddai'n cael ei derbyn gan y Cynulliad yn nes ymlaen, er enghraifft byddai "Darpariaeth ar gyfer ac mewn cysylltiad â gofyniad i osod system awtomatig i atal tân mewn safleoedd preswyl newydd" yn ymddangos ar yr Gorchymyn, ac yn ddiweddarach, byddai'n ffurfio teitl y Mesur unwaith y byddai hwnnw wedi ei lunio.

5 Mae'r Gorchymyn hwn wedi cymryd cryn amser i gyrraedd y pwynt hwn, yn bennaf oherwydd ei fod yn cyd-daro â Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau ar gyfer datganoli Rheoliadau Adeiladu i Gymru.

6 Bydd y Rheoliadau Adeiladu yn cael eu datganoli i Gymru, ond mae'n annhebygol y caiff unrhyw adolygiad ei gynnal cyn 2011, ac mae'n debygol o ymwneud ag Effeithlonrwydd Ynni yn y lle cyntaf.

7 Mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, a Chymdeithas y Prif Swyddogion Tân, wedi cefnogi Ann Jones ers dechrau'r cais hwn, a da yw nodi y cafwyd cefnogaeth gan Jane Davidson, y Gweinidog dros Dai, Swyddfa Cymru, ac yn wir, y Pwyllgor yn gyffredinol.

8 Rhagwelir y bydd y Pwyllgor yn gwneud cais i'r Gwir Anrh. Peter Hain, AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ymateb i adroddiad y Pwyllgor yn sydyn oherwydd yr amser y mae wedi ei gymryd hyd yn hyn, a bod pwerau'n debygol o gael eu cyflwyno i'r Cynulliad yn nechrau blwyddyn galendr 2010.

9 Y cam nesaf fydd i'r cais hwn am gymhwysedd gael ei drafod yn y ddau Dŷ, ac iddo fynd gerbron EM y Frenhines i gael cymeradwyaeth Brenhinol.

**Argymhelliad**

10 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnydd mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth arfaethedig.